# Cefnogi amgylcheddau i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth gefnogi amgylcheddau i gwrdd ag anghenion gofal, dysgu a datblygu plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys paratoi a chyfrannu at gynnal amgylchedd diogel sy'n ysgogi ac yn meithrin hyder y plentyn a'r person ifanc, yn ogystal â chefnogi arferion ar gyfer plant a phobl ifanc.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. defnyddio gofod ac adnoddau i greu amgylcheddau diogel sy'n canolbwyntio ar y plentyn
2. sicrhau hygyrchedd a diogelwch drwy gadw pwyntiau mynediad yn glir
3. dilyn asesiadau risg ac adrodd ynghylch materion iechyd a diogelwch
4. annog plant neu bobl ifanc i gymryd rhan weithredol yn y gwaith o ddylunio a chynnal amgylcheddau sy'n cwrdd â'u dewisiadau a'u hanghenion
5. annog plant neu bobl ifanc i gymryd rhan yn y gwaith o gynnal amgylcheddau ysgogol
6. cyfrannu at sicrhau bod ffactorau amgylcheddol yn y gweithle yn cwrdd â dewisiadau ac anghenion plant neu bobl ifanc
7. cyfrannu at sicrhau bod amgylcheddau'n hygyrch i bawb
8. creu amgylcheddau cynhwysol, ysgogol a diddorol gan ddefnyddio arddangosfeydd synhwyraidd a phrofiadau amrywiol sy'n hybu archwilio ac ymholi agored
9. defnyddio amrywiaeth o adnoddau i hybu delweddau cadarnhaol o gydraddoldeb ac amrywiaeth
10. defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol mewn dysgu sy'n seiliedig ar chwarae ac arferion beunyddiol
11. annog a chefnogi annibyniaeth plant neu bobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau
12. cefnogi plant neu bobl ifanc i wneud cynnydd a sicrhau cyflawniadau ar lefel sy'n addas i'w hoedran a'u hanghenion datblygu
13. cydnabod a chefnogi cyflawniadau plant neu bobl ifanc, gan eu helpu i ddatblygu ymdeimlad o hunan-werth
14. cefnogi ac annog plant neu bobl ifanc ac eraill i gydnabod eu cyflawniadau
15. ystyried dewisiadau, anghenion a diddordebau plant neu bobl ifanc wrth wneud newidiadau i amgylcheddau
16. rhoi esboniadau clir a sicrwydd ynghylch newidiadau i amgylcheddau
17. darparu amgylcheddau sy'n cefnogi plant neu bobl ifanc i gymdeithasu ag eraill
18. cefnogi plant neu bobl ifanc i ymgynefino ag amgylcheddau
19. annog eraill i gefnogi plant neu bobl ifanc i ymgynefino
20. rhoi arferion cyson ar waith i blant neu bobl ifanc sy'n gwneud defnydd effeithiol o amgylcheddau

21. cefnogi dewisiadau ac anghenion plant neu bobl ifanc o ran gofal personol
22. rhoi bwyd a diod i blant neu bobl ifanc, gan sicrhau bod dŵr yfed ar gael
23. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cynnal amgylcheddau i gwrdd ag anghenion plant neu bobl ifanc
24. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth gefnogi amgylcheddau i gwrdd ag anghenion plant neu bobl ifanc, gydag adborth gan eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. datblygiad plentyn o adeg geni hyd at 21 oed
2. sut mae cefnogi datblygiad plant a phobl ifanc drwy ddarparu profiadau synhwyraidd
3. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i greu lleoedd diogel, cefnogol a rhagweladwy
4. pwysigrwydd natur chwareus, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi dysgu drwy amgylcheddau
5. sut mae cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau yn gallu cael eu hystyried wrth greu amgylcheddau
6. sut y gall amgylcheddau gefnogi'r newidiadau y gallai plant a phobl ifanc fynd drwyddynt
7. effaith newid, a ffyrdd o helpu plant a phobl ifanc i'w rheoli
8. y lleoedd, y profiadau a'r rhyngweithiadau a ddarperir gan amgylcheddau
9. y mathau o ddyfeisiau ac adnoddau digidol a all gefnogi amgylcheddau i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc
10. sut mae sicrhau bod amgylcheddau'n addas i anghenion newidiol plant a phobl ifanc
11. rôl amgylcheddau o ran cefnogi rheoleiddio emosiynol plant a phobl ifanc
12. sut y gall amgylcheddau gael eu haddasu i gefnogi plant a phobl ifanc â niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol
13. sut mae arddangos gwrthrychau mewn ffyrdd ysgogol a diddorol ar gyfer plant a phobl ifanc
14. sut mae cynnal ffactorau amgylcheddol addas at ddibenion cysur, diogelwch a datblygiad plant a phobl ifanc
15. pwysigrwydd arferion cyson ar gyfer datblygiad plant a phobl ifanc
16. pwysigrwydd cyfnodau tawel i blant a phobl ifanc gael gorffwys heb gael eu gorysgogi
17. dylanwad diwylliant a chefndir ar ymateb plant a phobl ifanc i amgylcheddau
18. arferion trin bwyd yn ddiogel yn y gweithle
19. y gwahanol fathau o alergeddau bwyd a phwysigrwydd dilyn gweithdrefnau'r gweithle i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu
20. dewisiadau ac anghenion plant a phobl ifanc o ran gofal corfforol
21. sut mae sicrhau y gofelir am groen a gwallt plant a phobl ifanc dan do ac yn yr

awyr agored
22. sut mae cefnogi plant neu bobl ifanc i ofalu am eu dannedd
23. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cefnogi amgylcheddau i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc
24. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer cefnogi amgylcheddau i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc
25. sut y gall eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod effeithio wrth gefnogi amgylcheddau i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc, a sut i fynd i'r afael â hyn
26. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi amgylcheddau i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD239

Cefnogi amgylcheddau i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD239 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | amgylcheddau, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |